# Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

**2019 dccc 1**

*Darparu cyllid ar gyfer gofal plant*

PROSPECTIVE

**1 Cyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid mewn cysylltiad â darparu gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio.

(2) Rhaid i reoliadau bennu faint o ofal plant sydd i'w sicrhau yn rhinwedd y cyllid a ddarperir o dan is-adran (1).

(3) Mae plentyn cymhwysol rhieni sy'n gweithio yn blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol—

(a) sydd yng Nghymru;

(b) sydd o oedran (neu o fewn ystod oedran) a bennir mewn rheoliadau;

(c) sy'n bodloni unrhyw amodau eraill a bennir mewn rheoliadau;

(d) y mae datganiad wedi cael ei wneud mewn cysylltiad ag ef, yn unol â rheoliadau, i'r perwyl bod gofynion paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni neu'n parhau i gael eu bodloni.

(4) Caiff amodau a bennir o dan is-adran (3)(c) mewn cysylltiad â phlentyn ymwneud (ymhlith pethau eraill) ag addysg gynradd (o fewn yr ystyr a roddir i "primary education" yn adran 2(1)(a) o Ddeddf Addysg 1996) a geir gan y plentyn neu a roddir ar gael iddo.

(5) Caiff amodau a bennir o dan is-adran (3)(c) mewn cysylltiad â phlentyn hefyd ymwneud â rhiant i'r plentyn, neu bartner i riant i'r plentyn, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) â gwaith am dâl a wneir gan riant neu bartner.

(6) Caiff darpariaeth a wneir o dan is-adran (3)(d) mewn cysylltiad â datganiad gynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth ynghylch pryd y mae datganiad i'w wneud, hyd datganiad, ac amodau sydd i'w bodloni gan berson sy'n gwneud datganiad.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Adran 1. (See end of Document for details)*

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth, at ddibenion yr adran hon, ynghylch—

(a) amgylchiadau pan fo, neu pan na fo, plentyn i'w ystyried fel pe bai yng Nghymru;

(b) amgylchiadau pan fo, neu pan na fo, person i'w ystyried yn bartner i berson arall;

(c) amgylchiadau pan fo, neu pan na fo, person i'w drin fel pe bai'n gwneud gwaith am dâl.

(8) At ddibenion yr adran hon, mae "rhiant", mewn perthynas â phlentyn, yn cynnwys—

(a) unrhyw unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn yr ystyr a roddir i "parental responsibility" yn Neddf Plant 1989 (p. 41)) dros y plentyn;

(b) unrhyw unigolyn a chanddo ofal am y plentyn.

(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at reoliadau yn gyfeiriadau at reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Adran 1.